

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 6ed Medi, 2011, yn Y Neuadd Goffa, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 6th September, 2011 at Memorial Hall, Y Felinheli.

Yn Bresennol/Present: Daniel Williams (Is-gadeirydd)
Lena Ashley; Ronald Gray; Pat Jones;
Eluned Owen; Gerald Roberts; Meirion Roscoe

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Cyng Daniel Williams yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd.
Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf ar ol gwyliau mis Awst.
Cyfeiriodd at ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r Neuadd.

Safodd y Cyngor am gyfnod o dawelwch er cof am gyn gynghorydd Geraint Owen (Aberpwll) a fu farw yn ddiweddar.

Cllr Daniel Williams chaired the meeting in the absence of the Chairman.
A welcome was extended to all after the summer recess.
He referred to the usage that is now made of the Hall.

The Council stood for a period in silence as a mark of respect to a former Councillor, Geraint Owen (Aberpwll) who died recently.

2) **Ymddiheuriadau/Apologies** Ken Brown; Gareth Griffith; Sian Gwenllian;
Iestyn Harris; Pat White

3) **Datgan Diddordeb** / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod y 12fed Gorffennaf a'r 26ain Gorffennaf 2011.

Minutes of the Meeting held on 12th July and 26th July were received and confirmed as a true record of the meeting.

Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

i) Gwefan Cymunedol –33699 ymweliadau yn ystod mis Gorffennaf a 36448 yn ystod mis Awst

Diweddarau'r Wefan – Adroddwyd bod rhai dogfennau wedi ei diweddarau a bod cyfarfod gyda Meic Roberts angen ei drefnu.

- ii) Cymunedau Cynaladwy – Cafwyd adroddiad gan y ddau gynrychiolydd yn y cyfarfod ym Methesda yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 26ain Gorffennaf a nodwyd bod cyfarfod gyda chymdeithasau lleol wedi ei drefnu ar gyfer 13eg Medi.

Community Web Site – 33699 hits during the month of July and 36448 during August.

Up-dating the web site – Reported that some documentation had been up-dated and a meeting with Mike Roberts is to be arranged.

- ii) Sustainable Communities – a report had been received of the meeting in Bethesda at a special meeting held on 26th July and it was noted that a meeting with various local organisations has been arranged for the 13th September.

5) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report

Cyfeirwyd at y gwaith sydd wedi ei gwblhau dros gyfnod yr haf. Placiau wedi eu gosod, ar llawr yn yr ystafell bwyllgor wedi derbyn sylw. Hefyd murlun o'r carnifal oedd yn ffenest Felin Sgwrsio wedi ei osod yn y Neuadd.

Adroddwyd bod Mrs Nerys Williams, gofalwraig y Neuadd, wedi ymddiswyddo oherwydd afiechyd Mr Brian Ward. Bu i'r Clerc eisioes fod wedi anfon llythyr o ddiolch am eu gwaith dros llawer blwyddyn a dymuno adferiad i lawn iechyd yn fuan iawn.

Mae dau berson wedi datgan diddordeb yn y gwaith a phenderfynwyd cynnig y gwaith i Mrs Shirley Roberts ar gontract misol am gyfnod o dri mis er mwyn gohebu manylion y swydd yn ogystal a'r swydd ei hunan.

Amserlen y Neuadd - yn brysur llenwi.

Sefyllfa Ariannol – ddim wedi derbyn Tystysgrifau Terfynol hyd yn hyn ond gobeithio bydd rhain i law erbyn cyfarfod y 13eg. Eglurwyd bod un Anfoneb angen ei dalu ond bod diffyg o £600 yn y cyfrif. Derbyniwyd gais ar lafar oddiwrth Is-Gadeirydd Y Pwyllgor Rheoli am gyfraniad o £600 tuag at y diffyg oddiwrth y Cyngor Cymuned. PENDERFYNIAD – caniatâu rhodd o £600 at goffrau'r Pwyllgor Rheoli.

Reference was made to work completed during the summer recess. Plaques have been put up and the floor in the Meeting Room has received attention. The Carnival Mural that was previously at the Felin Sgwrsio has been re-located in the Hall.

Reported that the caretaker, Mrs Nerys Williams, had resigned her position owing to the ill-health of Mr Brian Ward. The Clerk had previously sent a letter of thanks for their work over many years and wished a speedy recovery to full health in the very near future.

Two persons have expressed an interest in the post and it was decided to offer the post to Mrs Shirley Roberts on a monthly contract for a period of 3 months so that the job description and advertisement of the post be published.

Hall Timetable – is filling up quickly.

Financial Situation – Final Certificates not as yet received but hope that these will be to hand by the meeting to be held on 13th September. Explained that one Invoice was to be paid but that there would be a deficit of £600 in the account. A verbal application for a donation of £600 from Council Funds was made by the Vice Chairman to meet this deficit. DECISION – a donation of £600 to be granted to the Management Committee.

6) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Gorffennaf ac Awst.
Cyflwynwyd Cysoniad Banc i gadarnhau'r gweddill.

A summary of payments during the months of July and August.
A Bank Reconciliation was presented confirming the balances.

7) Gohebiaeth/Correspondence:

Derbyniwyd a nodwyd gohebiaeth ddaeth i law yn ystod y mis
Correspondence for the month were received and noted.

Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council – Cyfarfod gyda'r Cyngorau Cymuned a Thref / Meeting with Community/Town Councils – 19 Hydref/October 6.30.p.m. Swyddfa'r Cyngor, Council offices, Penrallt, CAERNARFON. Cyng Ken Brown, Meirion Roscoe, Pat Jones a Lena Ashley a diddordeb. Cllrs Ken Brown, Meirion Roscoe, Pat Jones and Lena Ashley showed interest.

Cynghorydd 2012 / Be a Councillor 2012 Canllawiau I Ymgeiswyr / Candidates Guide. NODWYN / NOTED

Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiad Seneddol 2006). The Review of Polling Districts and Polling Places (Parliamentary Elections) 2006 NODWYD / NOTED

Newydd Da parthed Band Eang yng Ngwynedd/Good News about Broadband in Gwynedd - NODWYD / NOTED

LOCOG -(London Olympic Committee Organising Group) Gwahoddiad i gyfarfod yn y Vaynol 23 Medi am 10.30. Invitation to attend a meeting at the Vaynol at on 23 September. DECISION - Aelod o'r Cyngor i fynychu / Member of the Council to attend.

UNLLAIS CYMRU/ ONE VOICE WALES – Rhaglen Hyfforddi /Training Programme. Pob aelod wedi derbyn ffurflen gais ac i'w llenwi a'i dychwelyd yn y cyfarfod nesaf. Each member given an application form to complete and return by next meeting.

8) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

SMITH OF DERBY LTD. Cynnig I adnewyddu contract ar gyfer y Cloc am 3 blynedd ar gost o £411 + TAW. Offer to renew the Contract for the Clock for a period of 3 years at a cost of £411 + VAT.

PENDERFYNIAD - DECISION – adnewyddu'r contract am gyfnod o 3 blynedd / Renew the contract for a period of 3 years.

Oddimewn y cloc yn socian. Anhawster darganfod gwraidd y dwr. Hylif arbennig i atal dwr wedi ei daenu dros yr adeilad blwyddyn yn ol ond y sefyllfa yn parhau. Adroddwyd bod y gwaith trydannol yn socian. GWEITHRED/ ACTION – Cwmni ap Thomas i ddod yn ol gyda syniadau. Clerc i gysylltu a Chyngor Trewalchmai

The Clock's internal workings are soaking wet. It's difficult to assess where the water originates from. A special water repellent was applied 12 months ago but the problem remains. Reported that the electrics were soaking wet. ACTION – ap Thomas Company to respond with suggestions. Clerk to contact Trewalchmai Council.

9) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Neb yn datgan diddordeb na unrhyw wybodaeth all effeithio'r cais.
No declaration of interest or any information that could affect the application

Incline Terrace, Y Felinheli – Torri 6 Coeden ar sail Diogelwch Ffyrdd / Felling of 6 Trees on Grounds of Highway Safety.

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

Rhiwal, Siloh, Y Felinheli – Addasu'r Gweithdy Gwag I Uned Breswyl Fforddiadwy ac Ymestyn y Cwrtil Presennol a Gosod Tanc Septic/
Conversion of Vacant Workshop to an Affordable Residential Unit Together with Extending the Existing Cutilage and Siting of Septic Tank.

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

Henryd, Pendorlan, Y Felinheli – Cais I Dorri yn ol Coed sydd o dan Gorchymyn Gwarchod Coed / Application to cut back Trees which are subject to a Tree Preservation Order

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

10) Neuadd yr Eglwys / Church House

Dim newid ar y sefyllfa – dal i ddisgwyl ymateb yr Eglwys.

No change – still waiting a response from the Church

11) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Clerc wedi cwblhau cynllun o'r Fynwent ac am ei gyflwyno i Cyng Pat White i'w adolygu

Clerk has completed a plan of the Cemetery and Cllr Pat White will receive a copy so that it can be revised.

12) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Dim adroddiad - No report

13) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Dim adroddiad - No report

Cwyn ar lafar wedi ei dderbyn bod ogledd drwg yn dod o'r symp ger y ty newydd sydd yn cael ei adeiladu at Ffordd Caernarfon ble roedd Arfon Garage gynt.

GWEITHRED: Clerc i holi

Verbal complaint made regarding maldour coming from the sump near the new house on Caernarfon Road, former site of Arfon Garage.

ACTION - Clerk to enquire

14) Cystadleuaeth Garddio / Gardening Competition

Bydd noson gwobreuo ar 5ed Hydref am 7.00 yn Mhlas Dinorwic

The presentation evening will be held on 5th October at 7.00pm at Plas Dinorwic

15) Adroddiad y Cyngorydd Sir/Report of County Councillor

1) Materion llinellau melyn wrth yr ysgol a mannau eraill: Rwy'n hynod siomedig nad yw'r gwaith a gytunwyd gyda'r Uned Traffig wedi ei gwblhau. Mae hyn yn cynnwys llinellau melyn o gwmpas yr Ysgol, Gardd Fôn, Y Capel. Byddaf yn codi'r mater unwaith eto.

2)PARCIO : mae angen pwyso ar Cyngor Gwynedd i ddechrau ymgynghori ar fater newid yr amser aros ar Stryd Bangor gyferbyn a Central Garage i ddwy awr yn lle'r hanner awr presennol (a dim cyfyngiad ar y penwythnos). Byddaf yn mynd ar ol hyn.

3)11 Ffordd CAERNARFON – rwyf yn parhau i weithio gyda preswylwyr sydd yn bryderus am gollu lle yn y gulfan parcio. Deallaf y bydd Ymchwlad Cyhoeddus yn cael ei gynnal.

4) BYSIAU – Bum yn trafod gor-yrru drwy'r pentraf gyda'r swyddog yn y Cyngor ac mae'r cwynion wedi eu pasio i Arriva a Bws Padarn sydd wedi ymchwilio i'r mater ac yn ymwybodol o'r cwynion ac yn monitro'r sefyllfa. Mae amserlen wedi ei gosod ger Y Wern a'r hen un wedi ei dynnu ymaith.

- 5) BIN NEWYDD - Lan y Môr; o'r diwedd mae un bin newydd wedi ei osod ond mae dau fun wedi torri. Byddaf yn codi hyn efo'r Cyngor. Mae 4 bin baw ci newydd yn y pentre'.
- 6) MEDDYGFA ROWEN - mae'r cynllun yn dal ar y gweill ac rwyf wedi cysylltiad gyda'r datblygwyr.
- 7) Rwyf yn parhau i helpu unigolion efo materion cyfrinachol.
- 8) Rwy'n parhau fel Trysorydd Y Felin Sgwrsio ac mae'r sefyllfa ariannol yno'n iach gyda nifer o glybiau a chwmnïau preifat yn llogi'r lle a nifer o weithgareddau codi arian cyson. Bydd hysbysfwrdd cymunedol yn cael ei greu ar gyfer i ffenest ochr Bangor.
- 9) Cylchfannau Plas Menai a Faenol: mae gwaith wedi digwydd ar y ddwy gylchfan.
- 10) Cynllun Datblygu Lleol : mae angen cadw golwg ar hwn a sut y bydd yn effeithio ar Felinheli o ran codi tai newydd.
- 11) Ciosg Aberpwl: gofynaf i'r Clerc ffendio pwy sy'n gyfrifol am hwn er mwyn i mi ddechrau trafodaeth am ddefnydd i'r dyfodol.
- 12) Canllaw ger Rhiwal, Seilo : mae angen canllaw newydd ger y grisiau sydd yn cysylltu y ffordd i Seilio a'r brif ffordd. Gofynaf i'r Clerc ohebu gyda'r Cyngor Sir am hyn.
- 13) Cysgodfan bws yn Capel Graig, Penrhos : rwyf wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned anfon llythyr yn gofyn am gysgodfan gan fod cymaint o bobl o Felin yn defnyddio'r ardal yma.
- 14) Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno bid am arian ar gyfer creu Lon Las newydd ar hen drac y Rheilffordd rhwng Allt Dinas a'r culfan parcio ar Ffordd Caernarfon. Nid ydym yn gwybod a fu'r cais yn llwyddiannus. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn paratoi dau fid arall am arian: un ar gyfer cae aml bwrpas ger Lon Las Pen y Bryn ac un ar gyfer astudiaeth ar wella ardal Lan Mor. Os bydd y bidiau hyn yn llwyddiannus, bydd trafodaeth lawn gyda'r gymuned cyn symud ymlaen.
- 15) Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno bid am arian i dirlunio safle hen Capel Moriah dros ffordd i Londis. Os bydd y bid yn llwyddiannus fe fydd cyfarfod agored yn y pentref i drafod y mater.

.....

1) Yellow lines by the school and other areas in the village: I'm very disappointed that the work that has been agreed with the Traffic Unit has not been completed. This includes double yellow lines near the School, Gardd Fôn and the Chapel. I will raise the matter again.

2) PARKING : we need to press on Cyngor Gwynedd to start consulting about

changing the parking times on Bangor Street opposite Central Garage to two hours from the present 30 mins (and no restriction at the weekend). I will pursue the matter.

3)11 FFORDD CAERNARFON – I continue to work with the residents who are worried about losing parking spaces in the lay-by. I understand that a Public Inquiry is to be held.

4) BUSES – I have been discussing speeding in the village with a Council officer and the complaints have been passed to Arriva and Bws Padarn who say they will be monitoring the situation. A timetable has been erected near Y Wern and the old one removed.

5) NEW BIN - Lan y Môr; at last a new bin has been placed here but two bins are broken. I will raise this with the Council. 4 new dog fouling bins have been placed in the village.

6) ROWEN Surgery - the scheme is still going ahead and I am in regular contact with the developer

7) I continue to help individuals with confidential matters.

8) I continue in my role as Treasurer of Y Felin Sgwrsio and the financial situation there is healthy with a number of clubs and private companies hiring the place and regular money raising activities being held. A community noticeboard will be placed in the window on the Bangor side.

9)The roundabouts at Plas Menai and Faenol: safety work has been completed.

10)Local Development Plan: we need to keep an eye on how this will effect Felinheli and new housing proposals.

11) Aberpwll Kiosk: we need to think about the future of the Kiosk now that its not in use.

12)Hand rail near Rhiwal, Seilo : we need a new handrail near the steps that lead from Seilo to the main road. Clerk to pursue.

13)Bus shelter at Capel Graig, Penrhos : I have asked the Community Council to write to ask for a shelter as the place is used by Felinheli residents.

14) Gwynedd Council has applied for money to create a new Cycle Track on the Railway track between Allt Dinas and the parking bay at Ffordd Caernarfon. No news about this bid. Cyngor Gwynedd is also preparing two other bids for money :one to create a multi-purpose sports pitch near Lon Las Pen y Bryn and one to study options for improving the Lan Mor area. If the bids are successful, there will be a full discussion with the community before proceeding with any work.

15) Cyngor Gwynedd has applied for money to landscape the old Moriah Chapel site opposite Londis. If the bid is successful, there will be an open meeting in the village to discuss the matter.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Cyfeirwyd at lythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Mr Frederick Horrocks ynglyn ac arwyddbost ar gyfer ei fusnes 'The Boatshed'. CYTUNWYD nad oedd gwrthwynebiad iddo rhoi arwyddbost ger Rhif 43 Stryd Bangor yn unol ar arwydd a'i fesuriadau yn ol ei lythyr.

A letter from Mr Frederick Horrocks was referred to regarding a signpost indicting his business, The Boatshed. DECISION – No objection to him locating the sign near No 43 Bangor Street conforming to the sign and dimensions as per letter.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y cyfarfod i ben am 9.50..
No other matters to discuss and the meeting finished at 9.50.p.m.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a ohirwyd or 8fed Chwefror hyd at Chwefror 15 yng Nghapel Bethania, Y Felinheli.

Minutes of the adjourned meeting of Y Felinheli Community Council from the 8th to the 15th February at Bethania Chapel, Y Felinheli.

Presennol / Present: Ken Brown (Cadeirydd/Chairman)
Daniel Williams (is-gadeirydd / Vice Chairman)
Cynghorwyr/Councillors Lena Ashley; Sian Gwenllian; Iestyn Harris;
Pat Jones; Gerald Roberts; George Smith;
Pat White.

Ymddiheuriadau / Apologies Cllr Eluned Owen

1) yn dilyn eitem 7 ar Agenda cyfarfod o'r Cyngor ar yr 8fed Chwefror pan benderfynwyd gohirio'r eitem am wythnos i'w trafod ar y 15fed Chwefror.

Following item 7 on the Agenda for the meeting of the Council on 8th February when it was decided to adjourn the item for one week to be discussed on 15th February.

Ystyried Ceisiadau am gymorth ariannol / Consider requests for financial assistance

Sylwadau Arweiniol / Opening Remarks

Eglurwyd bod llawer cais wedi ei dderbyn oddiwrth amrywiaeth o wasanaethau a chymdeithasau oddimewn a thu allan i gylch lleol Y Felinheli.

Explained that many applications had been received from organisations and services both within and outside the locality of Y Felinheli.

PENDERFYNWYD – Ystyried ceisiadau oddimewn cylch lleol Y Felinheli yn union fel mae'r polisi wedi bod yn y gorffennol.

DECIDED – Consider applications within the locality of Y Felinheli in accordance with past policy.

Wedi trafod pob cais yn unigol penderfynwyd rhannu arian fel a ganlyn:

After considering each single application it was decided to share the money as follows:

- £200 - Y Goriad - tuag at gostau argraffu.
- £150 - Clwb y Felin (Henoed) tuag at gostau'r Clwb
- £500 - Gwyl y Felin tuag at gynnal yr Wyl
- £400 - Cyfeillion yr Ysgol tuag at brosiect o osod cysgodfa ar gyfer yr adran iau.
- £200 - Cylch Meithrin Y Felinheli tuag at adnoddau newydd i'r Cylch
- £400 - Clwb Peldroed Y Felinheli tuag at wariant ar y cantin a'r ystorfa
- £ 50 - Felinheli Rainbows tuag at gemau ac offer ar gyfer genethod 5 – 7 oed
- £100 - 3rd Portdinorwic Guides tuag at offer ar gyfer coginio a thent newydd
- £100 - Brownies tuag at brynu nwyddau, offer a rhentu caban yn y Felin Fach
- £500 - Clwb Pêl-droed Ieuencid i brynu offer y ogystal â chostau llogi neuaddau ar gyfer ymarferion
- £150 - Pwyllgor Regatta tuag at cynnal y Regatta yn 2011

Yn ogystal a'r uchod mae'r Cyngor yn ol eu Rheolau Sefydlog yn rhoi £500 yn flynyddol i Eglwys Santes Fair Llanfairisgaer ar gyfer cynnal a chadw Mynwent yr Eglwys.

In addition to the above, the Council, in accordance with their Standing Orders, donate the sum of £500 to St Mary's Church, Llanfairisgaer towards the repair and maintenance of the Church cemetery.

Cae Aml Bwrpas - Mae'r Cyngor wedi ystyried ceisio grantiau ar gyfer lleoli cae aml bwrpas yn ardal Pennington's, Lon Las fydd yn fantais ac yn adnodd gwerthfawr i'r pentref. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i fwrw mlaen gyda'r prosiect ond naturiol yn cefnogi'r prosiect.

Derbyniwyd cais oddiwrth Mr Emyr Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Y Felinheli yn amlinellu eu gobaiht gyda'r prosiect. Mae cais cynllunio eisioes wedi ei ganiatau ac mae angen arian i gychwyn y brosiect. Bydd grant o £1000 yn gyfateb i amcan bris cwmni Wakemans ar gyfer prisio'r prif waith ac mae Cyngor Gwynedd a Chynllun Môn a Menai wedi ymateb yn bositif iawn hyd yma i ariannu'r prosiect. Y cam cyntaf fydd gwaith prisio'r ac fe fyddai cael arian ar gyfer y gwaith hwnnw yn help mawr l'annog y brosiect yn ei flaen.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol cyfrannu swm o £1000 er mwyn cychwyn y gwaith prisio ac er mwyn i'r prosiect cyffrous newydd yma gael ei wireddu.

Multi-purpose all weather pitch - The Council have considered applying for grants to establish a multi-purpose allweather playing area in the Pennington Area that would prove to be a worthwhile benefit to the village. At present, the Community Council are unable to proceed with the project but obviously support the project.

An application had been received from Mr Emyr Roberts, Chairman of the Felinheli

Football Club, outlining their hopes for the project. Planning application has already been granted, but money is needed to start the project. A grant of £1000 would meet

the estimate from Wakeman's for pricing the main works and Gwynedd Council and the Mon Menai Plan have responded positively so far to finance the project. The first step is to have the major works costed and to receive a grant towards that work will be of great assistance to promote the project.

Following a discussion, it was unanimously agreed that the sum £1000 be donated by way of a grant to commence the costing work and for this new exciting project to materialise.

Cadeirydd / Chairman

8fed Mawrth 2011
8th March 2011